Urdd

**Teitl y Swydd:** **Swyddog Cylchgronau**

**Math o gontract:** **Swydd tymor-penodol 12 mis, llawn amser (35 awr yr wythnos)**

**Graddfa:** **Graddfa 6: £22,618 (Pwynt 1) - £26,220 (Pwynt 6)**

**Lleoliad:** **Un o brif ganolfannau'r Urdd: nail a'i Gwersyll Glan-llyn, Llangrannog neu Gaerdydd.**

**Amdanom ni**

Mae'r Urdd yn fudiad sy'n parhau i dyfu ac arloesi, ac yn un o'r cyflogwyr mwyaf sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg. Fe sefydlwyd yn 1922, ac erbyn heddiw cyflogir dros 300 o staff, bron 55,000 o aelodau, 10,000 o wirfoddolwyr a throsiant o £10m. Byddwn yn dathlu ein pen-blwydd yn 100 yn 2022 gan weithio gydag ein haelodau a'n gwirfoddolwyr ynghyd ac amryw o bartneriaid sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, S4C, BBC, Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Stonewall Cymru, Chwaraeon Cymru, Ysgolion a Cholegau Cymru.

**Y Swydd**

Mae gennym gyfle cyffrous i unigolyn egnïol, brwdfrydig a chreadigol i ymuno ag adran Gyfathrebu'r Urdd fel Swyddog Cylchgronau am gyfnod penodol o 12 mis. Prif bwrpas y swydd fydd cynhyrchu cylchgronau difyr, safonol a deniadol yn enw'r Urdd ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru.

Yn ogystal, bydd y swyddog yn gyfrifol am osod cyfeiriad clir ar gyfer cynhyrchu a hyrwyddo'r cylchgronau mewn print ac ar-lein gan sicrhau bod eu cynnwys yn atyniadol a chylchrediad cadarn.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Mali Thomas (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) ar 02920 635695 / 07976 33 03 60 / mali@urdd.org

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau – 12:00 awr ar 06.09.19
Dyddiad Cyfweld – Yn ystod wythnos y 16.09.19

| DISGRIFIAD SWYDD | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Swyddog Cylchgronau'r Urdd | **Lleoliad:** | Un o brif ganolfannau'r Urdd - Gwersyll Glan-llyn, Llangrannog neu Gaerdydd<br><br>Mae gan yr Urdd nifer o leoliadau gwaith eraill ar draws Cymru a byddem yn fodlon ystyried lleoli'r swydd yn un o'n swyddfeydd eraill drwy gytundeb. |
| **Adran:** | Cyfathrebu | **Yn gyfrifol am:** | Cynhyrchu a hyrwyddo Cylchgronau'r Urdd |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a drwyddi i'r Prif Weithredwr - | **Graddfa:** | Graddfa 6: £22,618 (pwynt 1) - £26,220 (pwynt 6). |

**Prif bwrpas y swydd:**

I gynhyrchu cylchgronau difyr, safonol a deniadol yn enw'r Urdd ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru.

Bydd y swyddog yn gyfrifol am osod cyfeiriad clir ar gyfer cynhyrchu a hyrwyddo'r cylchgronau mewn print ac ar-lein gan sicrhau bod eu cynnwys yn atyniadol a chylchrediad cadarn.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

- Creu a chomisiynu cynnwys holl gylchgronau'r Urdd (cyhoeddir tri chylchgrawn - Cip/ Bore Da / Iaw - urdd.cymru/cylchgronau), gan gydweithio'n agos gyda dylunydd i greu diwyg apelgar i'r cylchgronau gan sicrhau bod eu cynnwys yn atyniadol i blant a phobl ifanc.
- Llunio a chyhoeddi'r cylchgronau ar amser yn fisol ar gyfuniad o blatfformau – mewn print ac ar-lein.
- Marchnata'r cylchgronau trwy amrywiol ffyrdd yn benodol trwy'r cyfryngau cymdeithasol, ymgyrchoedd marchnata, y wefan, ymweliadau ysgol, llenyddiaeth addas a thrwy swyddogion a chysylltiadau'r Urdd
- Trefnu cynnwys addas ac ysgrifennu erthyglau deniadol gall gynnwys comisiynu gwaith gan awduron, dylunwyr neu sefydliadau.
- Creu cynnwys rheolaidd a deniadol ar gyfer tudalennau'r cylchgronau ar y wefan – datblygiad newydd o fis Medi 2019.
- Cydweithio gyda dylunydd mewnol yr Urdd i sicrhau cynnwys atyniadol
- Cydweithio gyda'r gweisg i sicrhau bod y cylchgronau yn cael eu hargraffu yn brydlon

- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau mewn byd addysg o ran dysgu Cymraeg ail-iaith a theilwra'r cylchgronau i adlewyrchu hyn.
- Bod yn ymwybodol o ddiddordebau plant a phobl ifanc a sicrhau bod y cylchgronau yn adlewyrchu hyn.
- Cynnal ac adeiladu ar y cylchrediad presennol.
- Cyfrannu fel aelod o dîm cyfathrebu'r Urdd at holl waith yr adran gan ddangos y gallu i fod yn hyblyg o ran y tasgau y gofynnir i'r swyddog ymdrin â hwy.

**Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

**Hanfodol**

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Sgiliau cynllunio cadarn a'r profiad o allu blaengynllunio gwaith er mwyn cadw i amserlen dynn.
- Iaith ysgrifenedig gywir a graenus fyddai'n gallu cywiro proflenni a phrawf ddarllen gwaith
- Profiad o weithio ar eich liwt eich hun, gan flaenoriaethu gwaith yn ôl y galw, law yn llaw a bod yn aelod o dîm yr adran gyfathrebu.
- Dychymyg byw, creadigrwydd a dawn ysgrifennu cynnwys sy'n addas i'r gynulleidfa
- Sgiliau cyfrifiadurol cryf

**Dymunol**

- Cymhwyster Gradd neu Uwch
- Profiad o greu a chynhyrchu gwaith print addas i gynulleidfa ifanc.
- Profiad o osod amserlen gan weithio tuag at dargedau misol o ran cylchrediad
- Trwydded yrru llawn a defnydd o gar, neu'r gallu i deithio'n hyblyg ac annibynnol
- Profiad o ddylunio gyda'r gallu i ddefnyddio meddalwedd dylunio amrywiol
- Profiad o ddatblygu meddalwedd digidol i gyd-fynd gyda chynnwys fersiynau print y cylchgronau

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

**Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:**

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:**

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad:**
Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mawrth 2017 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

**CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (**ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Swyddog Cylchgronau |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Cyfathrebu |
| **Cyflog:** | Ar raddfa 6 Strwythur Cyflog yr Urdd £22,618 (pwynt 1) - £26,220 (pwynt 6). Penodir ar Bwynt 1, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol |
| **Cytundeb:** | 12 mis (cyfnod mamolaeth) |
| **Oriau gwaith:** | Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg. |
| **Lleoliad:** | Swyddfa'r Urdd - un a'i Gwersyll Llangrannog, Gwersyll Glan-llyn neu Ganolfan yr Urdd Bae Caerdydd.<br><br>Mae gan yr Urdd nifer o leoliadau gwaith eraill ar draws Cymru a byddem yn fodlon ystyried lleoli'r swydd yn un o'n swyddfeydd eraill drwy gytundeb. |
| **Gwyliau blynyddol:** | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| **Cyfnod prawf:** | Bydd cyfnod prawf o 6 mis. |
| **Pensiwn:** | Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| **Gwiriad GDG:** | Nid yw'n berthnasol i'r swydd |
| **Archwiliad meddygol:** | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| **Yswiriant Bywyd:** | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |